Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Datganiad y Cadeirydd*

Mehefin 2019

Ymateb i adroddiad Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar dlodi eithafol a hawliau dynol

Rwy'n croesawu cyhoeddi adroddiad Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig. Mae'n drawiadol, ond mae'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n gorffen gyda nifer o argymhellion a allai, pe baent yn cael eu gweithredu, helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i gymunedau ar draws Cymru a'r DU.

Cyfarfu'r Pwyllgor â'r Rapporteur fel rhan o'i ymweliad. Cefais ei fod mewn 'hwyliau gwrando', yn barod i glywed y safbwyntiau gwahanol gan bawb ar y Pwyllgor.

Mae hwn yn adroddiad deifiol, a'r hyn sy'n amlwg yw'r newidiadau y dylai Llywodraeth y DU eu gwneud i wrthdroi effaith niweidiol cyni ar ormod o bobl ar draws y DU. Yng Nghymru, gall y ffaith mai yn San Steffan y rheolir nifer o ysgogiadau polisi allweddol rwystro ymdrechion i fynd i'r afael â lefelau tlodi ystyfnig o uchel.

O ran rôl budd-daliadau wrth gefnogi pobl mewn tlodi, mae'r Rapporteur yn pwysleisio bod y DU wedi cael rhwyd ddiogelwch gref yn hanesyddol, ond ei bod wedi'i herydu'n systematig ac yn glir. Mae'r Pwyllgor yr wyf yn gadeirydd arno wedi gweld hyn yn ein gwaith yn edrych ar dlodi yng Nghymru, ac wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru drafod dichonoldeb gweinyddu rhai manteision a fyddai'n ein galluogi i fabwysiadu dull gweithredu sy'n fwy addas i gymunedau yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor hefyd am gymryd rhan wrth ddatblygu dealltwriaeth well o sut y gallai datganoli o'r fath weithio ac rydym wrthi'n edrych ar y mater yn fanylach. Rydym yn gobeithio adrodd ar ein canfyddiadau'n ddiweddarach eleni.

Rwy'n falch bod ei ganfyddiadau o ran Cymru yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r materion allweddol y gwnaethom dynnu ei sylw atynt. Yn benodol, tynnodd sylw at ein pryderon ynghylch diffyg targedau perfformiad a dangosyddion cynnydd clir o ran trechu tlodi yng Nghymru.

Mae ein Pwyllgor wedi argymell ddwywaith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi strategaeth trechu tlodi i ddwyn ynghyd yr elfennau niferus o waith lleihau tlodi. Rydym wedi galw i hyn geisio dod â sylw manwl iawn ar leihau tlodi, yn ogystal â helpu i hwyluso gwaith craffu, fel y gallwn ddeall yn well yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.

Rydym yn teimlo y dylai strategaeth o'r fath gynnwys dangosyddion perfformiad clir, yn ogystal â nodi'r sail dystiolaeth ehangach i helpu i ategu gwerthusiad effeithiol o ddulliau geithredu gwahanol o ran trechu tlodi.

* Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yw hwn ac nid yw, o reidrwydd, yn adlewyrchu barn holl aelodau'r Pwyllgor.